

WJEC AS/A2 History Level 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â chipolwg eang ond addysgedig ar hanes y byd.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych yn mwynhau ymchwilio a darganfod
- ... Ydych yn chwilfrydig am ddigwyddiadau hanesyddol
- ... Ydych yn gallu cymell eich hun ac yn gweithio'n galed

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae'r cwrs hwn wedi'i rannu i 5 uned: dwy UG a thair U. Enillir cymhwyster UG ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf a'r Lefel U cyflawn ar ddiwedd y cwrs dwy flynedd.

Mae unedau 1 a 3 yn canolbwyntio ar hanes Cymru a Lloegr (1485-1603 a 1890-1990). Mae



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

unedau 2 a 4 yn cynnwys astudio'r Almaen Weimar (1918-1933) a'r Almaen Natsiaidd (1933-1945). Mae uned 5 yn waith cwrs a asesir yn fewnol. Bydd y gwaith cwrs yn seiliedig ar bwnc sy'n gysylltiedig ag Uned 3.

Yn Hanes Lefel UG ac U, mae ffeithiau a chysyniadau i'w deall ynglyn â sut mae'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi wedi esblygu, ond wrth astudio'r pwnc byddwch hefyd yn datblygu sgiliau megis dadansoddi, gwerthuso a chyfathrebu ymchwil.

Ar gyfer y cymhwyster Lefel UG, bydd gofyn i chi lwyddo mewn dwy uned:

Dau gwestiwn strwythuredig (Uned 1, 1485-1603)

Dau gwestiwn seiliedig ar ffynonellau (Uned 2 yr Almaen Weimar - un ar ffynonellau cynradd, ac un ar eilradd)

Ar gyfer y cymhwyster Lefel U, mae gofyn i chi lwyddo yn y Lefel UG a thair uned ychwanegol:

Dau draethawd strwythuredig (Uned 3, 1890-1990)

Un cwestiwn seiliedig ar ffynhonnell ac un traethawd strwythuredig (Uned 4, yr Almaen Natsiaidd 1933-1945)

Darn o waith cwrs a asesir yn fewnol sy'n seiliedig ar agwedd ar Uned 3.

Pan fyddwch yn cwblhau'r cwrs, byddwch yn cyflawni:

Hanes Lefel UG

Hanes Lefel U

Gweithgareddau sgiliau

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I ymrestru ar y cwrs hwn, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Gradd B mewn Saesneg a Hanes

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y cwrs a'r gallu i gymell eich hun. Byddwch yn cael eich asesu yn barhaol ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn ystod eich amser eich hun.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae Hanes yn bwnc academiaidd traddodiadol poblogaidd, sy'n eich galluogi chi i fynd ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth. Mae cyfleoedd ar gael i raddedigion hanes mewn ystod o broffesiynau yn cynnwys y Gyfraith, Addysgu, Busnes, Newyddiaduraeth a gwaith mewn Amgueddfa.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi wneud cyfraniadau ariannol at gost teithio ymweliadau addysgol.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

